

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
3 Ebrill 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr Sioned Williams, Rhys Pugh, Ifor D. Williams, Geraint R. Jones,
Dafydd Iwan, Edd Huws
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL

Datganodd nifer o Aelodau ddiddordeb/buddiant personol yn rhai o'r eitemau yn eitem 8.6, sef rhoddion ariannol. Fodd bynnag, gan y gohiriwyd trafod yr eitem yma tan y cyfarfod nesaf, doedd dim datganiadau o ddiddordeb na buddiant yr oedd angen eu cofnodi

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Emyr Williams

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd.

Cynnig: Ifor D. Williams Eilio: Sioned Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 GOSOD TIR PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN

Bu i oriadau yr hysbysfyrddau yn Y Bontnewydd ac yn Llanfaglan fynd ar goll. Mae'r Clerc wedi cael goriadau yn eu lle, ond nid ydynt yn gweithio. Nid oedd hi felly'n bosibl gosod hysbyseb yn gofyn am ddiddordeb i bori'r cae y tu ôl i Barc y Plwyf. Mae'r Clerc wedi cysylltu â North Wales Fencing er mwyn gofyn iddynt ddatrys y sefyllfa ar fyrder.

4.2 CYFETHOL AELOD

Cysylltodd Mr Ian Jones, Llanfaglan efo'r Clerc i fynegi diddordeb i gael ei gyfethol. Bydd yn cynrychioli Bontnewydd er ei fod yn byw yn Llanfaglan.

Cytunwyd yn unfrydol rhoi gwahoddiad i Mr Jones ymuno â'r Cyngor. Bydd y Clerc yn cysylltu ag ef i wneud y trefniadau priodol.

Cynnig: Dafydd Iwan Eilio: Ifor D. Williams

4.3 CYFLWR Y FFORDD LLANFAGLAN - BONTNEWYDD

Mae gwaith i wella'r ffordd wedi ei raglennu fel rhan o welliannau tymor hir Cyngor Gwynedd. Os oes mater sy'n teilyngu sylw brys, yna gall Cyngor Gwynedd archwilio'r ffordd yn gynt.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Erddyn Davies at broblem ger y Lodge, Llanfaglan, ble mae ochr y ffordd yn disgyn. Y pryder yw y bydd hyn yn arwain at fwy o ddifrod, gwaith a chost ychwanegol os na roir sylw i'r broblem yn fuan.

Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn iddyn nhw edrych ar y broblem ger y Lodge, Llanfaglan.

4.4 AROSFAN BYSIAU BONTNEWYDD

Mae'r Clerc wedi gofyn i Wyn Williams i wneud gwaith paentio i'r arosfan sydd gyferbyn â'r siop sglodion i gyfeiriad Dinas.

Paentio hanner isaf y tu mewn yn unig, sef y set ac oddi tani am bris o £158.00.

4.5 PORTH EGLWYS LLANFAGLAN

Ysgrifennodd y Clerc at Cadw a Chyngor Gwynedd er mwyn sicrhau pwy sydd efo cyfrifoldeb dros y porth a sicrhau nad yw wedi ei gofrestru.

4.6 CYLCHDRO GLAN BEUNO

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd gan nodi fod y Cyngor wedi cysylltu â hwy yn 2010 er mwyn mynegi pryder am ddiogelwch ar y groesfan. Bryd hynny fe gytunwyd fod Cyngor Gwynedd yn cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio cyllid i baratoi astudiaeth, ond nid aethpwyd ymlaen â hyn.

Yn ôl Cyngor Gwynedd, yr Asiantaeth Gefnffyrdd sydd efo cyfrifoldeb dros y cylchdro.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddyn nhw ystyried y mater unwaith eto, yn enwedig o gofio iddyn nhw roi addewid i geisio cyllid i wneud astudiaeth yn 2010.

5. MATERION ARIANNOL

Cytunwyd i dalu :

Cyflog a chostau clerch Mawrth 2014

Costau teithio i Bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru

Costau postio

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod EBRILL 2014

Cais C14/0263/19/LL - newid defnydd a mynedfa Cartref Bontnewydd.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gefnogi'r cais gan y byddai'r cais yn golygu lleoli swyddi ym mhentref Bontnewydd.

7. GOHEBIAETH

Diddymu adran 150 Deddf Llywodraeth Cymru

Byddai diddymu'r adran yma o'r Ddeddf yn golygu nad oes rhaid cael 2 lofnod ar sieciau'r Cyngor. Y rheswm dros y newid yw er mwyn hwyluso bancio drwy'r we. Ni fydd newid oni bai fod y Cyngor yn gwneud cais ffurfiol i ddileu'r angen am ddau lofnod.

Cartrefi Cymru, Adran Tai ac adfywio Llywodraeth Cymru

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ym mis Mawrth 2014 er mwyn egluro cynllun morol Llywodraeth Cymru. Derbyn er gwybodaeth.

Diwrnod agored Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal diwrnod agored ar 5 Ebrill. Derbyn er gwybodaeth.

Ail wynebu A487 cylchdro Glan Beuno hyd at Westy Meifod 28 Ebrill

Bwriada Cyngor Gwynedd ail-wynebu'r A487 gan ddechrau ar 28 Ebrill. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni rhwng 18:00 a 00:00

8. MATERION ERAILL

8.1 Toriadau i wasanaeth bws 1M

Ysgrifennodd Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog i fynegi pryder am doriadau i wasanaethau bysiau lleol, a gofyn am gefnogaeth i wrthwynebu unrhyw ddirywiad yn y gwasanaethau. Cyfeiriwyd yn benodol at y gwasanaeth 1M sy'n teithio drwy'r Bontnewydd, a'r posibilrwydd y bydd rhai o'r gwasanaethau presennol yn cael eu disodli gan wasanaeth bwcio bys.

Cytunwyd i gefnogi cais Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog a gwrthwynebu unrhyw ddirywiad yn y gwasanaethau bws presennol.

8.2 Enwi ffyrdd lleol

Mynegodd y Cyngorydd Ifor D. Williams bryder am rai ffyrdd bychan lleol yn cael eu henwi, ond hynny heb unrhyw drafodaeth neu ymgynghori ar yr enwau efo'r gymuned leol.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn iddynt beth oedd eu polisi a'r drefn o ran mabwysiadu ac enwi ffyrdd.

8.3 Diweddariad Pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru

Rhoddodd y Cynghorydd Sioned Williams adroddiad wedi iddi hi fynychu pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru. Y prif faterion a drafodwyd oedd Rheilffordd y Cambrian a'r difrod wedi'r tywydd drwg diwethaf, a bod Un Llais Cymru yn bwriadu ysgrifennu at S4C, oherwydd siom na chytunwyd i leoli pencadlys S4C yng Nghaernarfon.

8.4 Grant cae chwarae

Mae'r Cynghorydd Chris Hughes wedi gwneud cais am grant i ail-wneud y maes chwarae ar stad Llwyn Beuno. Gwrthodwyd y cais, ac fe ofynnodd y cynghorydd am gefnogaeth i geisio gwella cyfleusterau'r maes chwarae.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan fynegi pryder am gyflwr y maes chwarae.

8.5 Cyllideb 2014/15

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar gyllideb 2014/15, sydd £1,500 yn llai na'r flwyddyn flaenorol, oherwydd bod grant Cyngor Gwynedd wedi dod i ben.

Bydd angen felly bod yn sicr o'r rhwymedigaethau a gwariant ar gyfer 2014/15. Y Clerc i baratoi rhestr o rwymedigaethau y bydd yn rhaid eu talu yn 2014/15.

8.6 Rhoddion ariannol

Penderfynwyd gohirio'r eitem yma tan gyfarfod mis Mai, oherwydd angen bod yn sicr o'r gyllideb a'r gwariant tebygol ar gyfer 2014/15, ac oherwydd yr angen am fanylion gwariant y Ganolfan.

Cynnig: Geraint R. Jones Eilio: Dafydd Iwan

9. MATERION EITHRIEDIG

Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Bydd y cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol ac fe'i cynhelir ar 1 Mai 2014, am 7yh.